WG27618

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru

# Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

## Fframwaith Datblygu Cenedlaethol
## Cynigion yn ymwneud â Datganiad Cyfranogiad y Cyhoedd

Tachwedd 2016

OGL © Hawlraint y Goron ISBN digidol 978-1-4734-8147-3

## Cynnwys

**Tudalen**


| | | |
|---|---|---|
| **3** | **1.** | **Byrfoddau** |
| **4** | **2.** | **Ymgynghoriad ar y Datganiad drafft Cyfranogiad y Cyhoeddi** |
| **5** | **3.** | **Rhestr o ymatebwyr** |
| **6** | **4.** | **Crynodeb o newidiadau** |
| **7** | **5.** | **Ymatebion i gwestiynau ac ystyriaeth i faterion a godwyd** |

# 1. Byrfoddau

| | |
|---|---|
| ARhC | Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd |
| CDLl | Cynllun Datblygu Lleol |
| FfDC | Fframwaith Datblygu Cenedlaethol |
| CY | Cynllun Ymgysylltu |
| DCC | Datganiad Cyfranogiad y Cyhoedd |
| CDS | Cynllun Datblygu Strategol |
| AoG/AAS | Arfarniad o Gynaliadwyedd / Asesiad Amgylcheddol Strategol |
| LlC | Llywodraeth Cymru |

## 2. Ymgynghoriad ar y Datganiad Drafft Cyfranogiad Cyhoeddus

Mae’r cam cyntaf yn y broses FfDC yn cynnwys paratoi ac ymgynghori ar y Datganiad drafft Cyfranogiad y Cyhoedd (DCC). Mae’r DCC yn disgrifio sut y bydd y cyhoedd a rhanddeiliaid eraill yn cael eu cynnwys yn natblygiad y FfDC, y camau allweddol a’r amserlen.

Cynhaliwyd ymgynghoriad rhwng 1 Chwefror a 25 Ebrill 2016. Cafwyd 33 o ymatebion gan y canlynol yn ystod yr ymgynghoriad:-

| **Math o sefydliad** | **Nifer yr Ymatebion** |
|---|---|
| Busnes / ymgynghorydd | 2 |
| Awdurdod Cynllunio Lleol | 9* |
| Asiantaeth y Llywodraeth / arall o’r sector cyhoeddus | 10 |
| Corff proffesiynol / grŵp buddiant | 6 |
| Y Sector Gwirfoddol | 6 |
| **Cyfanswm** | **33** |

Mae’r adroddiad hwn yn dangos yr ymatebion a gafwyd ac mae’n ystyried y materion a godwyd. Mae’n nodi newidiadau i’r DCC Drafft, y tybir y bydd yn cryfhau ymagwedd Llywodraeth Cymru tuag at gyfranogiad y cyhoedd gydol y broses FfDC.

## 3. Rhestr o Ymatebwyr

**Busnes / ymgynghorydd**
Dŵr Cymru, Welsh Water
National Grid PLC

**Awdurdod Cynllunio Lleol**
Parciau Cenedlaethol Cymru
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Cyngor Dinas Abertawe
Cyngor Sir Ceredigion
Cyngor Sir Ddinbych
Cyngor Dinas Caerdydd
Cyngor Sir Caerfyrddin
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful **
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf **

**Asiantaeth y Llywodraeth / Arall o'r sector cyhoeddus**
Cyngor Tref Cas-gwent
Cyngor Cymuned Aber-miwl gyda Llandysul
Cyngor Cymuned Llanbadarn Fawr
Cyngor Tref y Barri
Cyngor Tref Pontardawe
Cyngor Tref Conwy Town Council
Cyngor Tref yr Wyddgrug
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Cyfoeth Naturiol Cymru
Cyngor Cymuned Mochdre gyda Phenstrywaid

**Corff proffesiynol / grŵp buddiant**
Cymdeithas y Cyfreithwyr
RTPI Cymru
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Cyfeillion y Ddaear Cymru
Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
Cŵn Tywys Cymru

**Y Sector Gwirfoddol**
CH Cymru
Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig
Cyswllt Amgylchedd Cymru
Cymdeithas Ddinesig Brynbuga
Tai Pawb
Cymorth Cynllunio Cymru **

**** cafwyd yn hwyr**

## 4. Crynodeb o Newidiadau

| Newid | Adran o'r DCC i'w Newid | Manylion am y Newid |
|---|---|---|
| A | Amserlen yn 2.1 | Mae'r amserlen wedi'i newid i roi mwy o amser i ystyried yr ymatebion a geir yn ystod cam 6. Mae'r cyfnod wedi'i ymestyn o 3 i 4 mis |
| B | Tabl yn 2.1 cam 4 | Mae manylion y cam wedi'u newid i gynnwys cyfeiriad at ymgysylltu a chais am dystiolaeth a phrosiectau |
| C | 1.4, tabl yn 2.1, 3.2, 3.3, 3.4, 3.5, 3.7, 3.8, 3.9 | Mae'r DCC wedi'i newid i wahaniaethu'n fwy pendant rhwng sut y bydd gwybodaeth ar gael gydol y broses FfDC, gweithgarwch yn ystod y cyfnodau ymgynghori ac ymgysylltu gydol y broses |
| D | 2.2 | Mae'r DCC wedi'i newid i egluro y bydd DCC yn cael ei gyhoeddi os bydd naill ai'r broses neu'r amserlen yn newid |
| E | Atodiad 1 | Mae'r DCC wedi ei newid i ddileu Atodiad 1 |
| F | 4.2 | Mae'r DCC wedi ei newid i egluro y bydd yr AoG/AAS yn ymgorffori mathau eraill o arfarniad cynllun yn y broses, fel iechyd, cydraddoldeb, iaith ac anabledd |

## 5. Ymatebion i Gwestiynau ac Ystyriaeth i Faterion a Godwyd

## Cwestiwn 1 – A ydych chi'n cytuno ag amserlen baratoi'r FfDC?

| Cwestiwn 1 | Ydw | Ddim yn cytuno nac yn Anghytuno | Nac ydw | Heb ateb |
|---|---|---|---|---|
| Busnes / ymgynghorydd | 1 | 0 | 1 | 0 |
| Awdurdod Cynllunio Lleol | 4 | 4 | 1 | 0 |
| Asiantaeth y Llywodraeth / arall o'r sector cyhoeddus | 3 | 2 | 0 | 5 |
| Corff proffesiynol / grŵp buddiant | 2 | 1 | 1 | 2 |
| Y Sector Gwirfoddol | 0 | 3 | 2 | 1 |
| **Cyfanswm yr Ymatebion** | **10** | **10** | **5** | **8** |
| **Adolygiad Ystadegol** | **30.5%** | **30.5%** | **15%** | **24%** |

**Crynodeb o Ymatebion**

Roedd yr ymateb i gwestiwn 1 yn bositif gyda dros 60% o'r ymatebion yn cytuno ag amserlen y FfDC neu heb fynegi barn. Mae'r ymatebion yn amlygu un o'r heriau allweddol sydd ynghlwm wrth baratoi cynllun datblygu – sef cydbwyso'r angen i baratoi cynllun ar frys a'r angen i sicrhau bod digon o amser i gasglu ac i ystyried y dystiolaeth a chynnwys pobl yn y broses.

Mae'r ymatebion yn dangos yr angen i'r broses FfDC gael ei chysoni â'r gwaith ar Fargeinion Dinasoedd a'r Dinas-Ranbarth, y Cynllun Morol a pharatoi CDSau. Mae Llywodraeth Cymru yn llawn cydnabod pwysigrwydd y cysylltiadau hyn a bydd yn sicrhau bod cyfleoedd i drafod ac ymgysylltu â phawb sy'n gysylltiedig â datblygiad y cynlluniau a'r rhaglenni hyn.

Mae'r pryderon a fynegwyd gan y rhai a oedd yn anghytuno ag amserlen y FfDC drafft yn cael eu cydnabod. Bydd y DCC yn cael ei newid i egluro'n well y cam casglu tystiolaeth a'r gwaith ymgysylltu a fydd yn ategu proses y FfDC.

**Newidiadau i'r DCC**

## NEWID A

Cafwyd sylw bod yr amser a roddir i ystyried yr ymatebion a gafwyd yn y prif gam materion, opsiynau a'r opsiwn a ffefrir ac yna i baratoi adroddiad ymgynghori o fewn 2 fis yn uchelgeisiol ac y dylid newid yr amserlen i 4 mis i fod yn gydnaws â cham 9. Derbynnir y sylw hwn a dylai'r DCC gael ei newid i adlewyrchu hynny.

**Newid –** Newid cam 6 amserlen y FfDC.

## NEWID C

Mynegwyd pryderon fod y cyfleoedd y cyhoedd i gyfranogi'n gyfyngedig a bod gwahaniaeth rhwng ymgynghori ac ymgysylltu. Mynegwyd pryderon hefyd nad oedd y dull a amlinellwyd yn y DCC Drafft yn cyfateb i'r egwyddorion a bennir o dan Gytundeb Aarhaus.

Mae'r darpariaethau yn adran 60B o PCPA 2004 (gweithdrefn i baratoi a chyhoeddi fframwaith) yn galluogi proses ymgynghori mewn cysylltiad â'r FfDC sy'n cydymffurfio â chytundeb Aarhus. Roedd y gwaith o lunio'r darpariaethau'n seiliedig ar ymrwymiadau'r Cytundeb.

Yn unol â Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol a'r ffyrdd o weithio sy'n cael eu hyrwyddo ganddi, bydd y FfDC yn cael ei ddatblygu'n unol â 5 egwyddor datblygu cynaliadwy, gan gynnwys egwyddorion cydweithredu a chynnwys.

Yn sgil y sylwadau a gafwyd yn ystod yr ymgynghoriad hwn, cydnabyddir y byddai'r DCC yn elwa ar esboniad mwy eglur o'r termau 'rhanddeiliaid', 'ymgysylltu', 'cynnwys', ac 'ymgynghoriad'. Bydd y DCC yn cael ei newid i fod yn gliriach ynglŷn â'r termau hyn. Bydd y DCC yn cael ei newid hefyd i ddatgan y bydd datblygiad y FfDC yn cynnwys amrywiaeth o wahanol gyfarfodydd, gweithdai a digwyddiadau trwy gydol proses y FfDC ac nid yn y camau ymgynghori allweddol yn unig.

Bydd rôl y DCC yn disgrifio sut a pha bryd yr ymgynghorir ar y FfDC a'r camau a gymerir i gynnwys y cyhoedd wrth ei baratoi. Mae'n disgrifio sut y gall y cyhoedd gael gwybodaeth yn ystod y prosesau a'r camau a gymerir ar

gamau allweddol i’w cynnwys yn ystod yr ymgynghoriadau.

Er mwyn cofnodi a rheoli dull Llywodraeth Cymru i wreiddio cydweithrediad a chynnwys yn ystod proses y FfDC, bydd Cynllun Ymgysylltu’n cael ei baratoi. Bydd hwn yn gofnod dynamig o sut y mae gweithgareddau gydol y broses gyfan wedi helpu i ddatblygu’r FfDC a bydd yn cael ei gyhoeddi ar dudalennau gwefan FfDC Llywodraeth Cymru. Bydd yn gofnod tryloyw o sut y mae’r FfDC yn cael ei ddatblygu a’r cyfarfodydd a’r digwyddiadau sy’n cyfrannu at broses y FfDC.

Bydd Cam 4 yn cynnwys pobl (ochr yn ochr â datblygiad yr AoG/AAS) a bydd DCC yn cael ei newid i ddangos hyn.

Bydd proses y FfDC yn sicrhau bod cyfle digonol i gynnwys a chydweithredu, gyda gwaith craffu’n cael ei wneud yn unol â gofynion Deddf Cynllunio (Cymru) yn y Cynulliad Cenedlaethol.

**Newid –** Bydd y DCC yn cael ei newid i fod yn fwy eglur ynglŷn â rôl ‘rhanddeiliaid’, ‘ymgysylltu’, ‘cynnwys’, ac ‘ymgynghori’.

Bydd y DCC yn cael ei newid i gynnwys cyfeiriad at y Cynllun Ymgysylltu â Rhanddeiliaid ac esboniad o’i rôl.

Bydd y DCC yn cael ei newid i esbonio sut y bydd amrywiaeth o gyfarfodydd, gweithdai a digwyddiadau’n cael eu cynnal trwy gydol proses y FfDC ac nid yn y camau ymgynghori allweddol yn unig.

## Cwestiwn 2 - A ydych chi'n cytuno bod tri chyfnod o ymgynghori â'r cyhoedd yn ddigon?

| Cwestiwn 2 | Ydw | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Nac ydw | Heb ateb |
|---|---|---|---|---|
| Busnes / ymgynghorydd | 2 | 0 | 0 | 0 |
| Awdurdod Cynllunio Lleol | 8 | 1 | 0 | 0 |
| Asiantaeth y Llywodraeth / arall o'r sector cyhoeddus | 4 | 1 | 0 | 5 |
| Corff proffesiynol / grŵp buddiant | 1 | 1 | 2 | 2 |
| Y Sector Gwirfoddol | 3 | 2 | 0 | 1 |
| **Cyfanswm yr Ymatebion** | **18** | **5** | **2** | **8** |
| **Adolygiad Ystadegol** | **55%** | **15%** | **6%** | **24%** |

**Crynodeb o'r Ymatebion**

Roedd mwyafrif yr ymatebion yn cytuno bod tri chyfnod o ymgynghori â'r cyhoedd yn ddigon. Dim ond 6% o ymatebwyr oedd yn anghytuno. Mae hyn i'w groesawu ac mae'n cadarnhau'r cydbwysedd y mae Llywodraeth Cymru wedi'i sicrhau rhwng ymgynghori â datblygu'r FfDC.

Yng ngoleuni rhai o’r ymatebion, yn benodol y rhai nad oedd yn cytuno â’r cyfnodau ymgynghori, bydd y DCC yn cael ei newid i egluro’n well y cam casglu tystiolaeth a’r gwaith ymgysylltu a fydd yn ategu proses y FfDC. Mae Newid C o dan Gwestiwn 1 uchod yn ystyried y materion hyn a’r newidiadau sydd eu hangen.

**Newidiadau i’r DCC**

| |
|---|
| **NEWID D**<br><br>Cafwyd sylw’n gysylltiedig â’r amserlen a’r angen posibl am ymgynghori ychwanegol.<br><br>Tybiwyd fod yr amserlen pedair blynedd yn briodol ac mae’n ceisio cydbwysedd rhwng sicrhau proses gyflym, ac ar yr un pryd caniatáu digon o amser i ymgysylltu ac ymgynghori â phobl.<br><br>Ni ragwelir y bydd angen ymgynghori ychwanegol. Nodir y pwynt, fodd bynnag, a bydd y DCC yn cael ei newid i gydnabod y gellir cynnal ymgynghoriad ychwanegol os bydd angen. |
| **Newid** – Newid paragraff 2.2 i nodi os oedd angen ymgynghoriad ychwanegol, byddai DCC wedi’i ddiweddaru’n cael ei gyhoeddi. |

## Cwestiwn 3 - A ydych chi'n cytuno bod y cyfnodau ymgynghori yn y lle iawn i sicrhau bod rhanddeiliaid yn gallu cyfranogi yn natblygiad y FfDC?

| Cwestiwn 3 | Ydw | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Nac ydw | Heb ateb |
|---|---|---|---|---|
| Busnes / ymgynghorydd | 2 | 0 | 0 | 0 |
| Awdurdod Cynllunio Lleol | 8 | 1 | 0 | 0 |
| Asiantaeth y Llywodraeth / arall o'r sector cyhoeddus | 2 | 2 | 1 | 5 |
| Corff proffesiynol / grŵp buddiant | 1 | 1 | 2 | 2 |
| Y Sector Gwirfoddol | 2 | 2 | 0 | 2 |
| **Cyfanswm yr Ymatebion** | **15** | **6** | **3** | **9** |
| **Adolygiad Ystadegol** | **46%** | **18%** | **9%** | **27%** |

**Crynodeb o'r Ymatebion**

Dim ond 9% o'r ymatebwyd a ddywedodd eu bod yn credu nad oedd y cyfnodau o ymgynghori â'r cyhoedd yn y lle iawn. Mae hyn i'w groesawu ac mae'n cadarnhau dull Llywodraeth Cymru i amlinellu proses lawn y FfDC yn y DCC fel y bydd y cyhoedd yn gallu gweld y camau sy'n dod cyn yr ymgynghoriad.

Yng ngoleuni rhai o’r ymatebion bydd y DCC yn cael ei newid i egluro’n well y cam casglu tystiolaeth a’r gwaith ymgysylltu a fydd yn ategu proses y FfDC. Mae Newid C o dan Gwestiwn 1 uchod yn ystyried y materion hyn a’r newidiadau sydd eu hangen.

**Newidiadau i’r DCC**

## NEWID B

Gwnaethpwyd sylw y dylid cael cyfleoedd i gyflwyno data a thystiolaeth i’r broses.

Bydd proses FfDC yn cynnwys cais am dystiolaeth a phrosiectau. Bydd y DCC yn cael ei newid i gynnwys cyfeiriad at hyn.

---

**Newid** – Newid yr amserlen o dan baragraff 2.1 ar gyfer cam 4 i ddarllen;
.
“Casglu tystiolaeth, datblygu’r weledigaeth, amcanion ac opsiynau

Ymgysylltu

Cais am Dystiolaeth a Phrosiectau”

Newid yr amserlen o dan baragraff 2.1 ar gyfer cam 7 i ddarllen;

“Paratoi FfDC drafft

Ymgysylltu”

**Cwestiwn 4 - A ydych chi'n cytuno â'r dulliau i gynnal ymgysylltiad parhaus? A oes dulliau ychwanegol y dylid eu defnyddio?**

| Cwestiwn 4 | Ydw | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Nac ydw | Heb ateb |
|---|---|---|---|---|
| Busnes / ymgynghorydd | 2 | 0 | 0 | 0 |
| Awdurdod Cynllunio Lleol | 6 | 3 | 0 | 0 |
| Asiantaeth y Llywodraeth / arall o'r sector cyhoeddus | 5 | 1 | 0 | 4 |
| Corff proffesiynol / grŵp buddiant | 2 | 2 | 0 | 2 |
| Y Sector Gwirfoddol | 2 | 1 | 2 | 1 |
| **Cyfanswm yr Ymatebion** | **17** | **7** | **2** | **7** |
| **Adolygiad Ystadegol** | **52%** | **21%** | **6%** | **21%** |

**Crynodeb o'r Ymatebion**

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cefnogi'r dull o ymgysylltu parhaus gyda dim ond 6% yn dweud nad oeddent yn cytuno â'r dull a ddisgrifiwyd yn y DCC Drafft. Mae hyn i'w groesawu ac mae'n cadarnhau ymagwedd Llywodraeth Cymru.

Roedd rhai o'r sylwadau'n datgan yr angen am drafodaethau dwy ffordd, cyfarfodydd wyneb yn wyneb a gwneud yn siŵr bod ymagwedd ac ieithwedd Llywodraeth Cymru yn gynhwysol ac nad yw'n gorlwytho'r rhai sy'n cymryd rhan ym mhroses y FfDC. Mae'r sylwadau hyn yn cael eu cefnogi a bydd y DCC yn cael ei newid i egluro'n well y cam casglu tystiolaeth a'r gwaith ymgysylltu a fydd yn ategu proses y FfDC. Mae Newid C o dan Gwestiwn 1 uchod yn ystyried y materion hyn a'r newidiadau sydd eu hangen.

**Cwestiwn 5 - A ydych chi'n cytuno â'r dulliau i ategu ymgysylltu mewn camau allweddol? A oes dulliau ychwanegol y dylid eu defnyddio?**

| Cwestiwn 5 | Ydw | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Nac ydw | Heb ateb |
|---|---|---|---|---|
| Busnes / ymgynghorydd | 2 | 0 | 0 | 0 |
| Awdurdod Cynllunio Lleol | 6 | 1 | 2 | 0 |
| Asiantaeth y Llywodraeth / arall o'r sector cyhoeddus | 3 | 1 | 1 | 5 |
| Corff proffesiynol / grŵp buddiant | 1 | 4 | 0 | 1 |
| Y Sector Gwirfoddol | 1 | 3 | 1 | 1 |
| **Cyfanswm yr Ymatebion** | **13** | **9** | **4** | **7** |
| **Adolygiad Ystadegol** | **39.5%** | **27.5%** | **12%** | **21%** |

**Crynodeb o'r Ymatebion**

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno â'r dulliau i ategu ymgysylltu mewn camau allweddol a dim ond 12% oedd yn anghytuno. Mae hyn i'w groesawu ac mae'n cadarnhau ymagwedd Llywodraeth Cymru.

Fel yng nghwestiwn 4, mae ymatebwyr wedi crybwyll trafodaethau dwy ffordd, ymgysylltu cyn cyfnodau allweddol a dull sy'n ymestyn trwy gydol proses y FfDC yn hytrach nag ymagwedd 'untro' mewn cyfnodau allweddol. Mae'r sylwadau hyn yn cael eu cefnogi a bydd y DCC yn cael ei newid i egluro'n well y cam casglu tystiolaeth a'r gwaith ymgysylltu a fydd yn ategu proses y FfDC. Mae Newid C o dan Gwestiwn 1 uchod yn ystyried y materion hyn a'r newidiadau sydd eu hangen.

**Cwestiwn 6 - A oes grwpiau / cyrff ychwanegol a ddylai gael eu hychwanegu ar y rhai a restrir yn Atodiad 1 y Datganiad Cyfranogiad y Cyhoedd drafft?**

Lle gellir eu hadnabod, bydd pob corff a sefydliad a nodwyd gan ymatebwyr yn cael eu hychwanegu at gronfa ddata'r ymgynghoriad.

| **Rhestr o Grwpiau a Chyrff a Awgrymwyd** |
|---|
| |
| **Grŵp Rhanddeiliaid Llywodraeth Cymru** |
| Y Gyfarwyddiaeth Cynllunio<br>Y Gyfarwyddiaeth Iechyd<br>Yr Is-adran Gyllid |
| **Grŵp Rhanddeiliaid Craidd** |
| Y Swyddfa Dywydd<br>CADW<br>Panelau CDS<br>Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus<br>Byrddau Iechyd Cyhoeddus<br>LEPau Lloegr (a chyrff eraill perthnasol yn Lloegr)<br>Yr Arolygiaeth Gynllunio<br>Dylai Asiantaeth yr Amgylchedd a Chyngor Cefn Gwlad Cymru gael eu rhestru ar wahân, fel yn achos y Comisiwn Coedwigaeth<br>CNC<br>Dŵr Cymru (yn ogystal â Dee Valley a Severn Trent Water)<br>Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch |
| **Rhanddeiliaid Cyffredinol** |
| Llywodraeth yr Alban<br>RTPI Scotland<br>Awdurdodau Cynllunio Strategol yr Alban<br>Pob un o Awdurdodau Cynllunio Lleol Cymru (gan gynnwys y Parciau Cenedlaethol)<br>Pob Cyngor a Chyngor Cymuned / Tref<br>Iechyd Cyhoeddus Cymru a Byrddau Iechyd<br>Shelter Cymru<br>Cymorth Cymru |

TPAS Cymru
Tenantiaid Cymru
Cymdeithas yr Iaith Gymraeg
Y Gwasanaethau Brys
Eisteddfod
Unsain
Prifysgolion a Cholegau yng Nghymru
Cyswllt Amgylchedd Cymru
cynrychiolwyr ysgolion / cyrff llywodraethu
gwasanaethau iechyd cyhoeddus
Sustrans
CBT
Cadw Cymru'n Daclus
Cynghrair y Parciau Cenedlaethol (Cymru)
Yr Ymgyrch dros Barciau Cenedlaethol
Cadwraeth Ucheldir Powys
Cymdeithas Mynyddoedd Cambria
Cymdeithas Gŵyr
Cymdeithas Mannau Agored
Plant Life Cymru
Cyswllt Amgylchedd Cymru
4 Wales Biodiversity Information Services
Ymddiriedolaethau Archeolegol Cymru
Ymddiriedolaeth Adar y Gwlyptir
Coed Cadw
Sefydliad Gwy ac Wysg
Ymddiriedolaeth Gerddi Hanesyddol Cymru
Y Gymdeithas Sioraidd
Y Gymdeithas Diogelu Adeiladau Hynafol
Yr Ymddiriedolaeth Arbed Dŵr
Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru [CBHC]
Cyngor Archaeoleg Brydeinig Cymru
Y Gymdeithas Cadwraeth Forol
Cymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar Cymru
Ymddiriedolaeth Adaryddiaeth Prydain
Cymdeithas Adaryddiaeth Cymru
Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru
Gwarchod Gloÿnnod Byw Cymru
Buglife Cymru - Invertebrate Conservation Trust
Y Comisiynydd Plant
Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol
Minerals Products Association
Fforwm Ymgynghorwyr Cynllunio Cymru
Mae Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent wedi'i chrybwyll ond dim un o gymdeithasau mudiadau gwirfoddol sirol na rhanbarthol sy'n gweithio mewn rhannau eraill o Gymru

| |
|---|
| Awdurdodau Cynllunio Lleol cyfagos yn Lloegr<br>Cwmnïau ynni<br>Corff sy’n cynrychioli buddiannau cymunedau Sipsiwn, Teithwyr, Roma<br>Cymdeithas Ddinesig Brynbuga<br>Y Grid Cenedlaethol<br>Y Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol<br>Gweithredwyr porthladdoedd<br>Cwmnïau ar Banel Cyfreithwyr Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol Cymru ar gyfer gwaith Cynllunio ac Amgylcheddol<br>Cwmnïau cyfreithwyr eraill sy’n gweithredu yng Nghymru sydd ag arbenigedd cynllunio ac amgylcheddol cydnabyddedig<br>Adrannau eraill Llywodraeth y DU |

**Newidiadau i’r DCC**

| |
|---|
| **NEWID E**<br><br>Cafwyd nifer o sylwadau ar y rhestrau o Randdeiliaid yn y DCC Drafft. Y bwriad wrth gynnwys grwpiau o randdeiliaid yn y DCC Drafft oedd dangos ystod y cyrff y bydd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori â hwy. Yng ngoleuni’r sylwadau a gafwyd yn ystod yr ymgynghoriad hwn, tybir nad oedd y rhestrau hyn yn fuddiol. Mae perygl iddynt achosi dryswch a rhoi’r argraff y bydd grwpiau gwahanol yn cael eu trin mewn ffordd wahanol.<br><br>O gofio y bydd y rhestrau hyn yn esblygu’n barhaus wrth i gyrff gael eu hychwanegu (neu ofyn am beidio â chael eu cynnwys mwyach) mae’r gwerth o’u cadw yn y DCC yn gyfyngedig. |
| **Newid –** Dileu Atodiad 1 o’r DCC |

**Cwestiwn 7 - A oes unrhyw sylwadau ychwanegol yr hoffech eu gwneud ar y Datganiad drafft Cyfranogiad y Cyhoedd?**

| Cwestiwn 7 | Oes | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Nac oes | Heb ateb |
|---|---|---|---|---|
| Busnes / ymgynghorydd | 2 | 0 | 0 | 0 |
| Awdurdod Cynllunio Lleol | 6 | 0 | 3 | 0 |
| Asiantaeth y Llywodraeth / arall o'r sector cyhoeddus | 7 | 0 | 3 | 0 |
| Corff proffesiynol / grŵp buddiant | 4 | 0 | 2 | 0 |
| Y Sector Gwirfoddol | 4 | 0 | 2 | 0 |
| **Cyfanswm yr Ymatebion** | **23** | **0** | **10** | **0** |
| **Adolygiad Ystadegol** | **70%** | **0%** | **30%** | **0%** |

**Crynodeb o'r Ymatebion**

Cafwyd amryw o sylwadau ychwanegol. Roedd y rhain yn cynnwys yr angen i sicrhau bod Dŵr Cymru'n cael ei gynnwys yn natblygiad y FfDC; pwysigrwydd y cysylltiad rhwng y FfDC a'r Ddeddf Llesiant; y posibilrwydd y gallai digwyddiadau effeithio ar amserlen y FfDC; yr angen i ystyried agweddau gofodol seilwaith mawr; a phwysigrwydd sicrhau bod y broses AoG/AAS yn ehangach nag asesiad amgylcheddol.

**Newidiadau i'r DCC**

| |
|---|
| **NEWID F**<br><br>Bydd y broses AoG/AAS yn mabwysiadu dull integredig a bydd yn manteisio ar y cyfle i gynnwys asesiadau iechyd a chydraddoldeb ochr yn ochr â rhai amgylcheddol. Dylai'r DCC gael ei newid i wneud hyn yn glir. |
| **Newid –** Bydd y DCC yn cael ei newid i egluro y bydd y broses AoG/AAS yn dilyn dull integredig a bydd arfarniadau eraill o'r cynllun yn cael eu hymgorffori yn y broses asesu. |